DYDD GWENER Y GROGLITH

ESEIA 52:12–53:12; SALM 22;
HEBREAID 10:16-25 [HEBREAID 4:14-16, 5:7-9];
IOAN 18:1–19:42

● **Gweddi agoriadol**

Mae moment o dawelwch ar ddechrau ein gwasanaeth yn ein galluogi i feddwl am y diwrnod rydym yn ei gofio. Mae'r daith i Jerwsalem a Sul y Blodau yn y gorffennol... *(Saib)*

Nawr mae creulondeb, anghyfiawnder, gwrthod a chroes greulon... *(Saib)*

Nawr hefyd mae aberth gwirfoddol Iesu Grist, yn marw dros bawb a'i gwrthododd ac a fydd wastad yn ei wrthod, ynghyd â'r holl ddynoliaeth... *(Saib)*

Dduw grasol, bydd gyda ni a siarad drwy'r ysgrythurau a'r emynau a ganwn, er mwyn i ni ddechrau deall gwirionedd y dydd a alwn yn Ddydd Gwener y Groglith.

● **Moliant**

Fu cariad ddim farw
ar y groes
ond mae, gyda breichiau ar led,
yn dal i'n croesawu,
y drain plethedig
a'r perlau o waed –
coron addas
i'r un sy'n frenin-was,

yn arwain ei bobl
mewn buddugoliaeth
drwy ddyffryn tywyll marwolaeth
i wlad a addawyd.

Fu cariad ddim farw
ar y groes
ond, â breichiau ar led,
mae'n dal i'n croesawu.

● **Cyffes**
Bob tro
na ddywedwn dy enw
gan ofni gwawd,
fe'th wadwn.

Bob tro
na ddown â'th gariad
i sefyllfa,
fe'th wadwn.

Bob tro
y methwn weld dy wyneb
mewn ffrind neu ddieithryn,
fe'th wadwn.

Maddau i ni,
fel y maddeui i bawb
sy'n troi yn wylaidd atat,
ac agor ein llygaid unwaith eto
i realiti'r groes.

● **Diolch**
Dduw cariad,
ar foment dawel
cofiwn
y cariad a'n dygodd
i'r lle hwn.
(*Tawelwch)*

Dduw cariad,
ar foment dawel
cofiwn
y breichiau a estynnwyd
ar ein rhan.
(Tawelwch)

Dduw cariad,
ar foment dawel
down â'n diolch dwfn.
(Tawelwch)